## Cofnod o benderfyniadau a wnaed gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ddydd Llun 15 Ebrill 2024

| Rhif Eitem Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 1 | Presenoldeb ac Ymddiheuriadau | Cynghorwyr yn bresennol: Dylan Rees (Cadeirydd); Bryan Apsley; Marion Bateman; Carol Beard; Tina Claydon; Sharon Doleman; Jeff Evans; Chrissy Gee; Alan Hughes; Chris Hughes; Gareth R Jones; Marc Jones; Gwynfor Owen; Beverley Parry-Jones; Arwyn Herald Roberts; Austin Roberts; Gareth A Roberts; Paul Rogers (o 9:39); Gareth Sandilands; Dale Selvester; Rob Triggs; Michelle Walker; Mark Young<br><br>Ymddiheuriadau: Cynghorwyr: Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd); John Brynmor Hughes; John Ifan Jones; Rondo Roberts.<br><br>Yn absennol: Cynghorwyr: Adele Davies-Cooke.<br><br>Hefyd yn bresennol: Dawn Docx; Stewart Forshaw; Helen MacArthur; Justin Evans; Dafydd Edwards; Gareth Owens; Tracey Williams; George Jones; Lisa Allington. |
| 2 | Datganiadau o Fuddiant | Dim |
| 3 | Hysbysiad o Faterion Brys | Dim |
| 4 | Cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2024 | i) cymeradwyo cofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub o 22 Ionawr 2024 fel cofnod cywir a gwir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd, gyda'r newid y gofynnwyd amdano wedi'i wneud. |
| 6 | Adroddiad y Cadeirydd | i) nodi'r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad. |
| 7 | Adolygiad Diwylliannol Annibynnol | i) Nodi cynnwys y papur; a<br>ii) chymeradwyo mewn egwyddor i greu cronfa wrth gefn i ariannu'r adolygiad annibynnol a'r rolau ategol o fewn y Gwasanaeth. |

| Rhif Eitem Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
| --- | --- | --- |
| 8 | Diweddariad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys | i) Nodi ymgysylltiad yr holl randdeiliaid ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i gydweithio i ddatblygu opsiynau sy'n sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth frys ar gyfer cymunedau Gogledd Cymru; a<br>ii) nodi'r cynnydd a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hyd yn hyn. |
| 9 | Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-29 | i) nodi cynnwys yr adroddiad; a<br>ii) chymeradwyo'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-29 arfaethedig. |
| 10 | Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru | i) cymeradwyo cadarnhad Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru o dan y telerau canlynol:<br><br>– Bod y Prif Swyddog Tân (PST) yn cael ei benodi i lofnodi'r Siarter ar ran yr Awdurdod;<br>– Bod Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd yn cael ei benodi'n Bwynt Cyswllt Sengl (SPoC) ar gyfer y cynllun; a<br>– Bod PSTC Justin Evans yn adrodd i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam ar gydymffurfiaeth. |
| 11 | Alldro Dros Dro 2023/24 | i) nodi'r rhagamcanion alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 fel y manylir yn eu cylch yn yr adroddiad;<br>ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant ac â materion yn y gadwyn gyflenwi; a<br>iii) chymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a rhai wedi'u clustnodi. |
| 12 | Datganiad Polisi Tâl 2024/25 | i) nodi gofynion Deddf Lleoliaeth 2011; a<br>ii) chymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. |
| 13 | Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25 | i) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25; |
| 14 | Strategaeth Gyfalaf 2024-34 | i) cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024-2034; |
| 15 | Strategaeth Cronfeydd Ariannol wrth Gefn | i) Cymeradwyo'r Strategaeth Cronfeydd Ariannol wrth Gefn sydd yn Atodiad 1, fel sail i reoli'r cronfeydd defnyddiadwy sydd gan yr Awdurdod. |
| 16 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/24 | i) Nodi cynnwys adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau. |

| Rhif Eitem Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 16i | Adolygiad Treigl o God Ymddygiad y Cynghorwyr | i) Cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o fewn y gwaharddiad ar wahaniaethu; a<br>ii) Diwygio'r gofyniad i adrodd ynghylch ymddygiad troseddol gan eraill hefyd i gynnwys hefyd adrodd amdanoch chi'ch hun pan fo cynghorydd yn cael euogfarn (ac eithrio hysbysiad cosb benodedig) |